# Trosedd casineb anabledd: canllaw i ofalwyr a chynorthwywyr



Llun: Dimensions

# I bwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn i bobl sy'n rhoi cymorth i rywun sydd wedi neu sydd mewn perygl o ddioddef trosedd casineb anabledd.

Mae hyn yn cynnwys:

- rhieni neu aelodau o'r teulu,
- partneriaid
- pobl sy'n cynorthwyo rhywun adref, yn eu gweithgarwch hamdden neu gyflogaeth neu waith gwirfoddol,
- gweithwyr iechyd proffesiynol,
- gweithwyr cymdeithasol,
- rhywun sy'n gofalu am rywun sydd mewn perygl ac sydd eisiau cyngor ynghylch sut i gynorthwyo'r unigolyn hwnnw os yw'n digwydd.

***Os ydych yn weithiwr cymorth cyflogedig neu'n weithiwr proffesiynol, sicrhewch eich bod yn deall ac yn gallu cyflawni eich dyletswyddau penodol i gadw pobl yn ddiogel, er enghraifft, o dan bolisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol.***

# Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn anelu i'ch cynorthwyo i:

- weld trosedd casineb anabledd,
- cynorthwyo'r un sydd mewn risg er mwyn iddynt ddweud wrthych beth ddigwyddodd,
- cymryd y cam iawn i ddiogelu'r unigolyn,
- herio asiantaethau sy'n cynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn heriol i weithredu.

# Cynnwys


I bwy mae'r canllaw hwn? 2

Am beth mae'r canllaw hwn? 2

Cyflwyniad 4

Beth yw trosedd casineb anabledd a phwy sy'n cael eu heffeithio? 5

Beth yw digwyddiadau casineb anabledd a phwy sy'n cael eu heffeithio? 7

Casineb ar-lein 9

Trosedd casineb anabledd a diogelu 11

Riportio trosedd casineb anabledd 13

Beth sy'n digwydd os nad yw'r heddlu'n ymateb yn briodol? 14

Beth sy'n digwydd os yw Gwasanaeth Erlyn y Goron am fwrw ymlaen ag achos? 15

Beth allaf ei wneud? 18

Atodiad Un: Cofnodi cwyn fel trosedd casineb anabledd, templed llythyr 21

Mynd ymhellach – Adnoddau 22

# Cyflwyniad

"Os ydych yn meddwl fod rhywun wedi'ch targedu chi neu rywun rydych yn ei gynorthwyo oherwydd casineb yn erbyn pobl anabl, rhaid i'r heddlu ei gymryd o ddifrif. Rhaid i'r digwyddiad gael ei gofnodi fel trosedd casineb neu digwyddiad casineb, gan ddibynnu a oedd yr hyn ddigwyddodd yn drosedd.

Rydym yn hyfforddi ein cydweithwyr yn yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn deall pa mor bwysig yw hyn. Ond buaswn eisiau pwysleisio i ddioddefwyr a chynorthwywyr nad yw hwn yn rhodd yr ydym yn ei gynnig ond yn hawl sylfaenol sydd gennym: byw ein bywydau wedi'u gwarchod rhag trosedd casineb."

Mark Hamilton, Dirprwy Brif Gwnstabl, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu ar Drosedd Casineb

---

Mae pobl anabl yn wynebu rhagfarn, gwahaniaethu a chasineb. Mae digwyddiadau 'lefel isel' fel 'ymddygiad gwrthgymdeithasol', gwahaniaethu gan fusnesau preifat a gwasanaethau cyhoeddus, ac aflonyddu yn gallu bod yn nodwedd o fywydau bob dydd rhai pobl. Gall y profiad hwn fod eich blino, eich niweidio a'ch eithrio. Mae'n ymyrryd gyda hawliau pobl i fod eu hunain a byw eu bywydau heb ofn.

Mae trosedd casineb anabledd yn bryder creiddiol o ran diogelu ac i'r heddlu. Gall achosion sy'n ymddangos i fod yn fân ddwysau'n gyflym, gan arwain at niwed difrifol. Mae rhai troseddau yn erbyn pobl anabl wedi cynnwys arteithio hir a llofruddio hyd yn oed. Gall cynorthwyo rhywun drwy drosedd casineb anabledd fod yn heriol ac anodd iawn, yn enwedig pan maent yn cael eu targedu dro ar ôl tro gan rywun maent yn ei adnabod.

Mae sawl proses, cyfraith a gweithdrefn sy'n effeithio ar ddioddefwyr a'u gofalwyr a'u cynorthwywyr. Efallai nad yw'r awdurdodau'n gwerthfawrogi natur ddifrifol cam-drin bob amser ac efallai nad ydynt yn gweithredu'n briodol.

Mae'r canllaw hwn yn anelu i'ch cyfarparu â'r wybodaeth bwysicaf. Mae hyn fel y gallwch gynorthwyo'r un rydych yn gofalu amdanynt i'r gorau o'ch gallu a sicrhau eu diogelwch.

# Beth yw trosedd casineb anabledd a phwy sy'n cael eu heffeithio?

Trosedd casineb anabledd yw unrhyw **drosedd** lle mae **casineb** y troseddwr yn erbyn pobl anabl yn ffactor yn y drosedd.

Mae Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr yn amcangyfrif y cyflawnwyd 52,000 o droseddau casineb anabledd yn 2017-2018[1].

Mae yna dan-riportio dybryd o drosedd casineb anabledd. Er enghraifft, dim ond 8,256 o droseddau casineb anabledd a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2018-2019. Tra mae hyn yn gynnydd o 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan awgrymu hyder ac ymwybyddiaeth cynyddol a gwelliannau mewn cofnodi gan yr heddlu, mae ffordd hir i fynd eto. Mae cymharu'r data hwn gyda'r Arolwg Trosedd yn awgrymu mai dim ond un mewn chwech o droseddau sy'n cael eu cofnodi.

Gall troseddau casineb anabledd gynnwys achosion lle:

- mae'r troseddwr yn camgymryd fod dioddefwr/dioddefwyr yn anabl,
- mae'r troseddwr yn targedu rhywun oherwydd eu bod yn gysylltiedig ag unigolyn anabl. Er enghraifft, gofalwr, cymar, ffrind, cynorthwyydd personol neu weithiwr cymorth.

Gall trosedd casineb anabledd gynnwys:

- **troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus,** fel rhywun yn gweiddi arnoch ar y stryd,
- **aflonyddwch** mewn safleoedd bws, ar y bws neu ar drafnidiaeth gyhoeddus arall,
- **ymosodiadau corfforol** fel cael eich taro neu'ch dyrnu, cael eich taflu allan o gadair olwyn, difrodi offer anabledd (gan gynnwys ffon hir, car, cadair olwyn
- **ymosod ar eiddo** fel cartrefi pobl neu ganolfannau dydd,
- **ymosodiadau corfforol a rhywiol** ac esgeulustod yn y cartref, gan gynnwys gwasanaethau preswyl a llety gwarchodedig,
- gan **rhwystro mynediad** yn rheolaidd - er enghraifft, parcio'n fwriadol mewn lle Bathodyn Glas, neu roi biniau o flaen mynediad cartrefi pobl,
- **bygythiadau**, gan gynnwys i aelodau'r teulu, partneriaid, cynorthwywyr personol a gweithwyr cymorth.

***Nid oes rhaid i chi brofi fod digwyddiad yn drosedd casineb anabledd. Os ydych yn credu fod digwyddiad yn cynnwys casineb tuag at anabledd, pan ydych yn riportio digwyddiad, rhaid i'r heddlu ei gofnodi fel hynny. Yn amlwg os yw dedfryd y troseddwr yn cynyddu fel trosedd casineb yn y llys, rhaid i erlynyddion roi tystiolaeth dderbyniol, ond nid yw hynny'n angenrheidiol at ddibenion cofnodi'r heddlu.***

[1] Nid oes ffigyrau arolwg trosedd ar gyfer 2019

Rhaid i'r heddlu gofnodi digwyddiad fel trosedd casineb anabledd os:

1. yw'r digwyddiad yn drosedd, ac
2. eich bod chi neu unrhyw un arall yn credu bod casineb tuag anabledd yn ffactor yn y digwyddiad.

Mae hyn yn sicrhau bod yr heddlu'n dilyn eu rheoli cofnodi ac ymchwilio eu hunain. Mae hefyd yn sicrhau bod yr un rydych yn ei gynorthwyo yn derbyn 'gwasanaeth gwell' o dan God Ymarfer Dioddefwyr Trosedd. Cyfrifoldeb yr heddlu yw casglu tystiolaeth er mwyn sefydlu os yw trosedd wedi'i chyflawni ac os yw'n drosedd casineb anabledd.

## Cod Ymarfer Dioddefwyr Trosedd

Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr Trosedd yn amlinellu'r hyn mae gennych hawl iddo os ydych yn dioddef trosedd yng Nghymru a Lloegr.

Ewch at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476900/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF

Mae'r Cod yn hir ac yn cwmpasu'r broses cyfiawnder troseddol i gyd, o riportio'r drosedd i broses ymchwiliad, erlyniad a'r llys. Ar ben yr hawliau sylfaenol a amlinellir yn y Cod, mae gan ddioddefwyr trosedd casineb anabledd hawl i 'wasanaeth gwell'. Mae hyn yn cynnwys asesiad anghenion unigol, cymorth penodol i roi datganiad i'r heddlu a thystiolaeth yn y llys (a elwir hefyd yn 'fesurau arbennig'), a mynediad i wasanaethau cymorth.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi creu canllaw defnyddiol gyda gwybodaeth bellach:

Canllaw cymorth i ddioddefwyr anabl a thystion: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/guide-to-support-for-disabled-victims-and-witnesses-of-crime.pdf

Fersiwn darllen hawdd – https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses-2016-easy-read.pdf

## Enghraifft o achos

Mae dyn gydag anableddau dysgu yn mynd ar fws preifat i'w ganolfan ddydd. Mae'n dod adref gyda chleisiau ar ei fraich ac mae'n amlwg nad yw eisiau mynd i'r ganolfan neu fynd ar y bws. Mae'n defnyddio Makaton i gyfathrebu, ond mae'r hyn ddigwyddodd yn union yn annelwig i'w deulu. Ymddengys wedyn fod y ddynes a gyflogwyd i hebrwng y teithwyr yn defnyddio iaith gwrth anabledd wrth gam-drin pobl drwy dynnu yn galed ar eu breichiau a'u dillad.

Mae hon yn enghraifft o ymosodiadau corfforol ynghyd â chasineb tuag at anabledd. Maent yn droseddau casineb anabledd.

# Beth yw digwyddiadau casineb anabledd a phwy sy'n cael eu heffeithio?

Mae digwyddiadau casineb anabledd nad ydynt yn droseddau yn digwyddiadau sy'n syrthio o dan lefel trosedd lle targedir dioddefwr/dioddefwyr oherwydd casineb yn erbyn pobl anabl.

Eto, gall y troseddwr gamgymryd fod dioddefwr/dioddefwyr yn anabl, neu gallent dargedu rhywun oherwydd eu bod yn gysylltiedig ag unigolyn anabl, er enghraifft, gofalwr.

Mae'r gyfraith droseddol yn gymhleth iawn ac ni ddylech boeni a yw hyn yn ddigwyddiad trosedd casineb neu ddim yn drosedd. Rhaid i'r heddlu wrando ar yr amgylchiadau a gweithredu eu canllawiau. Cofiwch y gellir riportio unrhyw beth os yw'n teimlo'n anghywir neu os yw'n peri niwed.

**Rhaid i'r heddlu gofnodi holl digwyddiadau o gasineb anabledd.**

Mae'n hanfodol cofio:

- y gall effaith digwyddiadau casineb fod yn niweidiol iawn, boed eu bod yn droseddol neu beidio,
- y gall digwyddiadau ddwysau mewn difrifoldeb.

Gall enghreifftiau o digwyddiadau casineb gynnwys:

- **syllu'n gas,**
- **galw enwau** – gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr digwyddiadau hyn syrthio o dan drothwy trosedd.

***Cofiwch ei bod yn llawer gwell ymateb i ddigwyddiadau casineb lefel isel nac aros i faterion ddwysau i niwed mwy difrifol.***

Er nad yw ddigwyddiadau casineb yn cyrraedd lefel trosedd, gallent dorri cyfraith gwahaniaethu, fel Deddf Cydraddoldeb 2010.

Er enghraifft:

- gwrthod gwasanaethu rhywun mewn bwyty, tafarn, lle trin gwallt neu unrhyw fusnes arall,
- gwrthod caniatáu i ddefnyddiwr cadair olwyn ddod ar fws pan mae coetsis cadair wedi cymryd lle'r man a gedwir ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn,
- diffodd teclynnau sy'n caniatáu i ddrysau agor yn awtomatig yn fwriadol,
- tynnu goleuadau o doiled anabl, neu gloi'r drws gyda'r bwriad o atal pobl rhag defnyddio'r toiled,
- gofyn i rywun adael man cyhoeddus am reswm yn berthnasol i'w nam.

| Enghreifftiau o achosion | Beth all ddigwydd? |
|---|---|
| Aeth dyn gydag awtistiaeth i ddrama i weld ei dad yn perfformio. Yn ystod y perfformiad, mae'r dyn yn gneud synau o werthfawrogiad. Mae dynes o'i flaen yn troi rownd o hyd ac yn mynegi i'r dyn fod dawel. Mae'r ddynes yna'n dweud wrth weithiwr cymorth y dyn y dylent adael. Mae'r gweithiwr cymorth wedi cynhyrfu'n arw ac mae'n gadael gyda'r dyn. Pan mae'r perfformiad ar ben, daw'r tad allan a gweld nad yw ei fab yno. Mae wedi cynhyrfu'n fawr fod ei fab wedi colli ei berfformiad. Nid oedd y mab wedi sylweddoli'r hyn oedd yn digwydd ac ymddengys nad oedd wedi'i effeithio'n negyddol gan y profiad.<br><br>Tra nad yw'r digwyddiad hwn yn drosedd, ac efallai nad yw'n torri cyfraith gwahaniaethu ar sail anabledd, mae'n annifyr iawn i dad a gweithiwr cymorth y dyn.<br>Mae'n ddigwyddiad casineb. | Ni fydd gan yr heddlu unrhyw rym i arestio ond bydd yn gallu cynnig cyngor a chyfeirio at gymorth hyfforddedig. Gallent sgwrsio gyda pherchennog y theatr i geisio atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.<br><br>Yn yr achos hwn gall y tad, neu'r gweithiwr cymorth, ddewis mynd â'r mater yn uniongyrchol i reolwr y theatr am ymateb cyflymach. |
| Mae dynes sy'n defnyddio cadair olwyn yn mynd i fowlio gyda'i chymar. Pan maent yn mynd i'r toiled anabl, maent yn darganfod fod y bwlb golau wedi'i dynnu, ac nad oes gan y toiled olau naturiol. Mae'r rheolwr yn egluro bod hyn oherwydd nad yw'r busnes angen pobl 'fel hi' yn defnyddio'r toiledau.<br><br>Eto, nid yw'r digwyddiad hwn yn drosedd. Fodd bynnag, mae'r busnes yn debygol o fod wedi torri cyfraith cydraddoldeb.[2] Mae'n ddigwyddiad casineb. | Efallai nad oes gan yr heddlu rymoedd i orfodi'r perchennog i weithredu ond fe allent eich cyfeirio at ymgynghorwyr cyfreithiol, gweithredu fel cyfryngwyr neu gyfeirio'r mater at yr awdurdodau lleol sy'n rhoi trwyddedau i eiddo o'r fath.<br><br>Byddai gan y dioddefwr yma'r hawl hefyd o ymdriniaeth uniongyrchol gyda'r awdurdod trwyddedu neu gymryd cyngor cyfreithiol ar hawliad cyfraith sifil am iawndal. |
| Mae bachgen gyda Syndrom Down a'i chwaer yn cerdded i'r safle bws i fynd adref ar ôl bod yn siopa am anrhegion pen-blwydd. Mae grŵp o bobl ifanc yn y safle bws. Maent yn syllu ar y bachgen ac yn sibrwd ac yn chwerthin ymysg ei gilydd. Mae'r bws yn cymryd 10 munud i gyrraedd. Mae'r bachgen a'i chwaer yn mynd ar y bws ac yn eistedd yn bell o'r bobl ifanc. Mae'r bachgen a'i chwaer wedi cynhyrfu ac yn ddistaw ar y ffordd adref.<br><br>Mae'r digwyddiad hwn yn annhebygol o gyrraedd trothwy trosedd. Fodd bynnag mae'n achos o eithrio, bwlio a chynhyrfu a gall gael effaith fawr. Mae'n ddigwyddiad casineb. | Ni all yr heddlu arestio ond gallent ddewis siarad â'r bobl ifanc i'w cynorthwyo i ddeall y niwed a achoswyd gan fwlio ac ymgysylltu gydag addysgwyr i wneud gweithgarwch ar leihau casineb o'r fath drwy raglenni addysgiadol sydd ar gael ar True Vision (www.report-it.org.uk). |

[2] Rhaid i fusnesau ddarparu mynediad cyfartal i doiledau i gwsmeriaid/ymwelwyr a gweithwyr anabl, i'r un safon â phobl sydd ddim yn anabl.
Gallwch wybod mwy am ddyletswyddau busnesau i ddarparu toiledau hygyrch yma: https://accessible-toilet-project.blog/2015/11/03/equality-of-toilet-provision-the-equality-act-2010

# Casineb ar-lein

Gall pobl gael eu targedu'n uniongyrchol gan gasineb ar-lein neu gael eu heffeithio wrth wylio deunydd atgas ar-lein. Gall rhai achosion o dargedu gyrraedd lefel trosedd.

## Enghraifft o achos

Mae mam yn mynd â'i phlentyn 6 oed, y mae ei chyflwr yn achosi anffurfiad ar ei hwyneb, ar raglen deledu er mwyn amlygu'r angen am fwy o fuddsoddiad meddygol i'r cyflwr. Wedi hynny, mae nifer o bobl yn sefydlu tudalennau Facebook i wneud hwyl ar ben yr eneth, gan ei galw'n 'Alien' er enghraifft. Mae llawer o bobl eraill yn ymateb drwy wneud sylwadau'r un mor sarhaus. Cyhoeddwyd llawer o'r deunydd y tu allan i'r DU ac roedd felly'r tu hwnt i gyfreithiau'r DU.

Nid yw'r eneth sy'n cael ei thargedu gan y sarhau hyn yn mynd i weld y deunydd hwn gan fod rhaid i ddefnyddwyr Facebook fod yn 13 oed ac nid oes ganddi fynediad. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiadau a'r rhannu yn peri tramgwydd mawr i lawer o bobl sydd ddim yn cael eu targedu'n uniongyrchol. Mae'n ddigwyddiad casineb.

### Beth all ddigwydd?

Mae gan yr heddlu Hyb Trosedd Casineb Ar-lein arbenigol sy'n ymateb i droseddau a digwyddiadau casineb ar-lein. Gellir riportio'n uniongyrchol i'r uned drwy True Vision (www.report-it.org.uk). Yn yr achos hwn, gallent ofyn i Facebook ystyried a yw'r deunydd yn torri eu telerau defnyddio a'u safonau cymunedol. Gall tîm yr Hyb gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r rhai sy'n cynnal y dudalen. Gallent ofyn iddynt dynnu'r deunydd a gallent gyfeirio at elusen gyda gwirfoddolwyr hyfforddedig sy'n herio deunydd niweidiol o'r fath drwy gynorthwyo dioddefwyr a rhoi neges gadarnhaol sy'n groes i'r hyn a gyhoeddwyd.

Gallwch hefyd wybod mwy am yr hyn mae'r heddlu wedi ymroi i'w wneud yma: https://www.report-it.org.uk/strategy_and_guidance

a'r hyn mae GEG wedi ymroi i'w wneud yma: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses.pdf

***Dywed y gyfraith:***

- Mae ***Deddf Hawliau Dynol 1998*** yn dweud fod rhaid i'r heddlu ac awdurdodau cyhoeddus eraill gymryd camau i warchod pobl ac ymchwilio os oes tystiolaeth fod eu diogelwch mewn perygl. Gall methu â gwneud olygu eu bod yn torri Erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Mae yn erbyn ***Deddf Cydraddoldeb 2010*** i unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus wahaniaethu ar sail anabledd.
- Mae ***Deddf Gofal 2014*** yn dweud fod rhaid i Awdurdodau Lleol gymryd camau penodol i warchod unrhyw un sydd ag anghenion gofal a chymorth, sy'n profi neu mewn perygl o, gam-drin neu esgeulustod, ac, o ganlyniad i'w anghenion, yn methu gwarchod eu hunain[3].
- Mae ***Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003*** yn dweud lle mae'n brofedig fod troseddwr wedi'i gymell gan gasineb tuag at anabledd neu fod troseddwr wedi dangos casineb tuag at anabledd (ymddangosiadol) ar y pryd, yn syth cyn neu wedi'r drosedd, rhaid i'r llys drin hyn fel ffactor waethygol wrth ddedfrydu a rhaid dweud hyn mewn llys agored.

---

[3] Gweler https://www.scie.org.uk/care-act-2014/safeguarding-adults/ am adnoddau pellach. Gweler hefyd Bolisi Diogelu'r darparwyr gwasanaeth perthnasol lle bo'n berthnasol.

# Trosedd casineb anabledd a diogelu

## Enghraifft o achos – Steven Hoskin

Roedd Steven Hoskin, dyn gydag anableddau dysgu, yn byw mewn fflat un ystafell yn St Austell, Cernyw. Toc ar ôl iddo symud i mewn, daeth pobl a oedd yn honni bod yn ffrindiau iddo i fyw ato. Daeth ei fflat un ystafell yn lle i bobl gymryd cyffuriau, yfed a chwarae cerddoriaeth uchel. Roedd Steven yn cael ei gam-drin fwy ac yn fwy gan un dyn yn benodol sef Darren Stewart a'i gariad Sarah Bullock. Aeth Steven i'r ysbyty sawl gwaith oherwydd ei anafiadau ac fe wnaeth gysylltu â'r heddlu dro ar ôl tro gyda'i bryderon. Ar 6 Gorffennaf 2007, cafwyd hyd i gorff Steven ar waelod traphont rheilffordd St Austell. Ar ben yr anafiadau trychinebus sy'n gysylltiedig â syrthio 30 medr, canfu archwiliad post mortem fod Steven wedi cael ei arteithio. Cafwyd Darren Stewart a Sarah Bullock yn euog o'i lofruddiaeth a chafwyd Martin Pollard yn euog o ddynladdiad. Cyn iddo gael ei arteithio i farwolaeth, fe'i 'cafwyd yn euog' o fod yn 'bedoffeil'.
Dolen i adolygiad achos difrifol: http://www.hampshiresab.org.uk/wp-content/uploads/2007-December-Serious-Case-Review-regarding-Steven-Hoskin-Cornwall.pdf

### Beth ddylai ddigwydd?

Mae'r amgylchiadau trasig hyn yn gymhleth yn aml a bydd angen ymateb amlasiantaeth fel arfer a ddylai nodi a lleihau risg. Mae'n anodd iawn weithiau i weithwyr proffesiynol wybod fod cam-drin yn dwysau, yn enwedig pan nad yw'r dioddefwyr yn ymgysylltu ag awdurdodau neu'n dewis gwarchod eu cam-drinwyr. Maent yn credu fod eu 'cyfeillgarwch' yn bwysig neu'n ofni y bydd pethau'n gwaethygu os gwnânt ddweud am y cam-drin.

Hyd yn oed pryd nodir y risg, mae rhai dioddefwyr wedi defnyddio eu dewis anwybyddu cyngor a dychwelyd at gwmni'r troseddwyr. **Dyma pam ei bod yn hanfodol y dylai teulu a ffrindiau go iawn a, gweithwyr proffesiynol allu gweld arwyddion cam-drin a chael yr hyder a'r wybodaeth i rannu eu pryderon gydag awdurdodau.**

Efallai bydd angen hefyd i ddigwyddiad gael ei gyfeirio at weithdrefnau diogelu oedolion os yw'r unigolyn yn cael eu gofalu o dan Ddeddf Gofal 2014. Mae hyn yn golygu unrhyw un sydd ag anghenion gofal a chymorth, sy'n profi neu mewn perygl o, gam-drin neu esgeulustod, ac, o ganlyniad i'w anghenion, yn methu gwarchod eu hunain[4].

Fel yr amlinellir yn y siart lif adrodd ar dudalen 13, gall hyn olygu y bydd angen gweithdrefn riportio tebyg i'r heddlu a phrosesau diogelu. Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn benderfyniad dethol rhwng atgyfeirio diogelu neu riportio trosedd. Gall y ddau atgyfeiriad fod yn briodol ar yr un pryd.

[4] Gweler er enghraifft, Polisi Diogelu Dimensions, fersiwn 8.1 ar gael ar https://www.dimensions-uk.org/wp-content/uploads/Safeguarding-policy-version-8.1.pdf

## Nodi ffactorau risg sy'n dangos yr angen am weithredu'n chwim

Mae'n bwysig fod y rhai hynny gyda dyletswydd gyfreithiol neu foesol i warchod yn gallu adnabod symptomau cam-drin o'r fath ac yn barod i weithredu, boed fod hynny'n riportio pryder neu'n ceisio mwy o wybodaeth.

Gall yr 'arwyddion a symptomau' canlynol ddangos fod rhywun mewn perygl o niwed difrifol:

- ymddygiad 'gwrthgymdeithasol' yn dwysau, neu unigolion hysbys yn 'bod yn gas',
- cael eu galw'n bedoffeil neu'n 'gynffonwr' gan bobl yn y gymdogaeth neu gan bobl maent yn eu hadnabod,
- pobl newydd (sydd o bosib hefyd yn hysbys i wasanaethau) yn symud mewn i'w cartrefi,
- ymgeision mynych i gael gwared ar bobl y gwnaethant ddweud wrthych i ddechrau mai ffrindiau oeddent ond mae'r un rydych yn ei gynorthwyo angen dod â'r cyfeillgarwch i ben,
- yfed neu gymryd cyffuriau'n gynyddol, colli pwysau,
- gorbryder abnormal, natur ymosodol neu flino'n anarferol,
- canslo gwasanaethau cymorth ac apwyntiadau,
- anafiadau heb esboniad drostynt,
- gwrthod triniaeth feddygol am anafiadau,
- arwyddion o ofn, ddim eisiau mynd adref,
- dim arian / colli arian / prynu anrhegion drud, sigaréts, gemau PlayStation ac yn y blaen i 'ffrindiau',
- mynd i'r ysbyty yn aml heb eglurhad.

Dengys y ffactorau hyn y gall yr unigolyn fod mewn risg dwysach. Argymhellir eich bod yn hysbysu'r heddlu a gwasanaethau eraill ynghylch y ffactorau risg hyn, gan ddweud wrthynt eu bod yn mynegi risg cynyddol ac y dylid gweithredu.

---

## Pwyntiau allweddol:

***Os yw trosedd yn digwydd, y flaenoriaeth yw cysylltu â'r heddlu. Os yw'r digwyddiad yn broblem diogelu hefyd, yna dylid dilyn gweithdrefnau diogelu gwasanaeth ochr yn ochr. Dylai gweithdrefnau diogelu oedolion fod yn hawdd cael mynediad iddynt ar wefan eich awdurdod lleol.***

***Pan mae risg parhaus, mae gan yr heddlu, awdurdodau diogelu a chyrff cyhoeddus eraill ddyletswydd i gymryd camau rhesymol a phriodol i ddiogelu unigolion rhag cam-drin, trosedd a niwed.***

***Pan mae nifer o asiantaethau yn gysylltiedig, rhaid gweithredu er mwyn gwneud y cysylltiadau, er enghraifft, drwy adolygiadau amlasiantaeth. Gall hyn olygu fod nifer y wybodaeth a chamau posibl i ofalwyr yn gallu bod yn llethol ond mae ymyriad yn hanfodol. Cofiwch fod gan weithwyr proffesiynol ddyletswydd i weithredu lle mae unigolyn mewn perygl.***

# Riportio trosedd casineb anabledd

Mae'r siart hon yn rhoi canllaw gam wrth gam ar sut i riportio troseddau a digwyddiadau casineb

**Hysbysu am droseddau ac achosion casineb anabledd**

Ydych chi neu'r un rydych yn ei gynorthwyo mewn perygl? (ymgynghorwch â'r ffactorau risg yn y canllaw, t12)

**Ydw / Ydi / ddim yn siŵr:**

- Mae'r troseddwr dal yn bresennol
- Rydych chi neu rywun arall wedi'ch anafu'n ddifrifol neu mewn perygl
- rydych yn meddwl y gall y troseddwr ddychwelyd neu barhau i droseddu.

Ffoniwch 999 a rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am yr hyn sydd wedi digwydd i'r heddlu.
Os yw'n berthnasol, ystyriwch eich dyletswyddau o dan y Ddeddf Gofal ac unrhyw gamau diogelu angenrheidiol.
Os ydych yn ansicr, eglurwch yr hyn ddigwyddodd wrth yr heddlu a pham rydych yn meddwl ei fod yn drosedd casineb anabledd a pham ydych chi neu'r un rydych yn ei gynorthwyo mewn perygl?

**Nac ydw / Nac ydi**: does dim o'r risgiau a restrir yn berthnasol

A yw'r un rydych yn eu cynorthwyo yn barod i hysbysu'r heddlu am y digwyddiad?

**Ydi**

Hysbyswch yr heddlu drwy 101 neu drwy True Vision https://www.report-it.org.uk/your_police_force gan adael manylion cyswllt.
Ewch ar https://www.stophateuk.org/ sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr mewn sawl ardal.
Os yw'n berthnasol, ystyriwch eich dyletswyddau o dan y Ddeddf Gofal ac unrhyw gamau diogelu angenrheidiol.

**Nac ydi**

Ystyriwch hysbysu'n ddienw drwy True Vision https://www.report-it.org.uk/your_police_force neu Ganolfan Hysbysu trydydd parti fel https://www.stophateuk.org/ neu wasanaeth lleol. Ceir sefydliadau eraill a all gynorthwyo yma: https://www.report-it.org.uk/organisations_that_can_help

Os yw'n berthnasol, ystyriwch eich dyletswyddau o dan y Ddeddf Gofal ac unrhyw gamau diogelu angenrheidiol.
Er enghraifft, os yw pobl eraill mewn perygl, rhaid i chi weithredu.

**Mae'r unigolyn â'r diffyg gallu i wneud y penderfyniad hwn o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005**

Hysbyswch am y digwyddiad i'r heddlu drwy 101 neu True Vision neu 999 Ystyriwch eich dyletswyddau o dan y Ddeddf Gofal ac unrhyw gamau diogelu angenrheidiol.
Er enghraifft, os yw pobl eraill mewn perygl, rhaid i chi weithredu.

Cofiwch:

- Rhaid i'r heddlu gofnodi digwyddiad fel trosedd casineb anabledd os yw'n drosedd ac os ydych chi neu unrhyw un arall yn sylwi fod rhagfarn yn erbyn pobl anabl wedi bod yn ffactor.
- Rhaid i'r heddlu gofnodi digwyddiad lled-droseddol fel achos casineb os ydych chi neu unrhyw un arall yn sylwi fod rhagfarn yn erbyn pobl anabl yn ffactor.
- Mae gan yr heddlu a holl gyrff statudol ddyletswyddau i warchod unigolion rhag niwed, atal trosedd a chymryd camau i ddileu aflonyddu ar bobl anabl.
- Mae yn erbyn Deddf Cydraddoldeb 2010 i unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus i wahaniaethu yn erbyn yr unigolyn rydych yn eu cynorthwyo ar sail anabledd. Gweler t7 am ganllawiau.
- Os ydych yn ansicr, nid yw'n golygu nad ydych yn anghywir. Siaradwch am pam rydych yn meddwl fod rhagfarn yn erbyn anabledd yn ffactor yn yr achos hwn.
- **Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl** gweler adran 'Arwyddion allweddol casineb neu ragfarn mewn troseddau casineb anabledd'. Nid yw'r un manylyn yn rhy fach ac nid yw'r un cwestiwn yn ddiangen!
- Gofyn am atgyfeiriad i wasanaeth arbenigol.
- Gofyn am gymorth a nodi anghenion cymorth: bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau y bodlonir rhwymedigaethau o dan y Cod Dioddefwyr. Mae'r GEG angen y wybodaeth hon os yw'r achos yn mynd i'r llys.

Os yw'r heddlu'n penderfynu cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron, yna efallai bydd angen tystiolaeth bellach. Mae'r rhestr isod yn cynnwys cwestiynau y gall erlynwyr eu gofyn pan maent yn ystyried os yw digwyddiad yn drosedd casineb anabledd. Efallai eich bod wedi rhoi'r wybodaeth hon pan wnaethoch riportio'r digwyddiad i ddechrau.

### Arwyddion allweddol casineb neu ragfarn mewn 'troseddau casineb anabledd':

- a oedd unrhyw ffocws ar yr anabledd ei hun neu ar y cymorth anabledd? Er enghraifft, iaith, ystumiau, difrod direswm i gymorth clywed, baglau, cadair olwyn, sgwter ac yn y blaen, rhoi mwgwd dros wyneb dioddefwr byddar?
- A oes digwyddiadau blaenorol wedi bod a oedd yn cynnwys yr un troseddwr/troseddwyr, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol bwriadol?
- A yw'r achosion wedi dwysau mewn difrifoldeb ac amlder?
- Beth yw statws y troseddwr – "ffrind", gofalwr cyflogedig neu anffurfiol/teuluol, cyfaill, perthynas, dieithryn?
- A oedd sawl troseddwr yn caniatau ac yn annog, yn tynnu lluniau/fideos?
- A oes cyhuddiadau ffug fod y dioddefwr yn bedoffeil neu'n "gynffonwr"?
- A oedd yn ymosodiad parhaus?
- A oedd yn cynnwys trais gormodol?
- A oedd creulondeb, cywilyddio neu ddiraddio ynghlwm?
- Pa dystiolaeth sydd yno i awgrymu nad yw hwn yn drosedd casineb anabledd?

# Beth sy'n digwydd os nad yw'r heddlu'n ymateb yn briodol?

Mae'r heddlu'n ystyried troseddau casineb yn drosedd flaenoriaethol gan eu bod yn achosi'r niwed mwyaf i ddioddefwyr. Maent hefyd yn fwy tebygol o dargedu'r un ddioddefwr yn fynych a gall hyn ddwysau mewn difrifoldeb.

Fel gydag unrhyw wasanaeth, fe fydd yna swyddogion unigol a fydd yn methu cyrraedd y safonau a osodir gan eu prif swyddogion. Gall enghreifftiau gynnwys:

- methu â chofnodi digwyddiad fel trosedd casineb yn unol â pholisi'r heddlu,
- methu â chynorthwyo'r unigolyn sydd wedi'u targedu yn ddigonol i egluro'r hyn ddigwyddodd iddynt, er enghraifft drwy beidio gwrando arnynt pan maent yn riportio digwyddiad,
- cofnodi gwybodaeth yn anghywir neu beidio dilyn newyddion o ymchwiliad yn unol â rhwymedigaethau Cod Ymarfer Dioddefwyr.

Pan mae methiannau o'r fath yn digwydd, mae'n bwysig fod dioddefwyr neu eu gofalwyr yn cymryd nodiadau manwl sy'n disgrifio'r broblem. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gwybod sut i herio gwasanaeth gwael. Ar brydiau gellir cyflawni hyn drwy rannu'r pryderon hynny gyda'r swyddogion ymateb. Ond os nad yw hyn yn briodol neu'n llwyddiannus, mae gan ddioddefwyr neu ofalwyr yr hawl i ofyn am ymyrraeth oruchwyliol sy'n cynnwys:

1. edrych ar y rhestr o sefydliadau a all fedru cynnig eiriolaeth ar y wefan True Vision – https://www.report-it.org.uk/organisations_that_can_help
2. cysylltu â'r heddlu lleol i ofyn cael siarad â goruchwyliwr i egluro pryderon a holi am adolygiad o'r ymchwiliad,
3. ysgrifennu at y Prif Gwnstabl lleol (neu Gomisiynydd yn Llundain) i godi pryderon,
4. gwneud cwyn ffurfiol i'r heddlu lleol,
5. cwyno i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu – https://www.policeconduct.gov.uk.

DS: Mae atodiad un yn cynnwys llythyr templed a ellir cael ei ddefnyddio i ysgrifennu at brif swyddogion, er mwyn sicrhau bod trosedd sydd wedi'i riportio yn cael ei chofnodi'n gywir.

# Beth sy’n digwydd os yw Gwasanaeth Erlyn y Goron am fwrw ymlaen ag achos?

Os yw GEG yn penderfynu symud ymlaen gydag erlyniad, rhaid i’r erlynydd gofnodi’r achos fel trosedd casineb anabledd, gan ddefnyddio’r un diffiniad â’r heddlu. Mewn geiriau eraill, os yw’r dioddefwr neu unrhyw un arall yn canfod fod rhagfarn neu gasineb tuag at anabledd yn ffactor yn y drosedd, rhaid iddo gael ei gofnodi gan GEG fel trosedd casineb anabledd. Mae hyn yn caniatáu’r gwasanaeth erlyn i gymhwyso eu polisi trosedd casineb anabledd ac anelu at:

- creu’r achos cryfaf,
- sicrhau bod y cymorth iawn mewn lle i’r dioddefwr os ydynt yn mynd i roi tystiolaeth.

Mae’r ffaith y dedfrydir yr achos fel trosedd casineb yn dibynnu ar a oes digon o dystiolaeth. Dylai’r GEG hysbysu’r dioddefwr o hyd am eu penderfyniad ynghylch hyn. Os oes digon o dystiolaeth ac y ceir rhywun yn euog o’r drosedd, yna mae gan y GEG ddyletswydd i ymgeisio am gynyddu dedfryd o dan Adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Os yw’r dystiolaeth yno, rhaid i’r llys ddweud mewn llys agored fod hon yn drosedd casineb anabledd ac y dylid trin y ffaith hon fel ffactor waethygol wrth ystyried y ddedfryd.

---

**Mynd ymhellach**

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi creu gwybodaeth ynghylch yr hyn i’w ddisgwyl os ydych yn gysylltiedig ag erlyniad trosedd casineb anabledd

Datganiad cyhoeddus ar drosedd casineb anabledd – https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/disability-hate-crime-public%2520statement-2017.pdf

fersiwn darllen hawdd – https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/hate-crime-what-it-is-and-what-to-do-about-it-2016-easy-read.pdf

Canllaw cymorth i ddioddefwyr anabl a thystion: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/guide-to-support-for-disabled-victims-and-witnesses-of-crime.pdf

Fersiwn darllen hawdd – https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses-2016-easy-read.pdf

## Sut allaf gynorthwyo'r un rwyf yn gofalu amdanynt orau?

Er eich bod agosaf i'r un a effeithir, efallai na fyddant eisiau dweud wrthych am bopeth sydd wedi digwydd. Efallai byddent angen cymorth proffesiynol i siarad am yr hyn ddigwyddodd a sut mae wedi'u heffeithio nhw. Mae ganddynt hawl i gymorth o dan y Cod Ymarfer Dioddefwyr. Mae adran olaf y canllaw hwn â rhestr o sefydliadau cymorth y gallwch gysylltu â nhw.

Dyma rai syniadau ynghylch sut orau i gynorthwyo'r unigolyn i ddweud wrthych yr hyn ddigwyddodd a chadw llinellau cyfathrebu'n agored. Daw'r syniadau hyn gan bobl anabl eu hunain a gan ofalwyr gyda phrofiad yn y maes hwn. Mae mwy o syniadau ynghylch sut i gynorthwyo pobl ar dudalen 18.

| Gwneud | Peidio â Gwneud |
|---|---|
| • ***Gwrandewch.*** Cynorthwyo'r unigolyn i egluro'r hyn ddigwyddodd, yn eu geiriau eu hunain. | • ***Peidiwch â gollwng gafael,*** hyd yn oed os nad yw'r unigolyn eisiau dweud popeth wrthych chi. Efallai y dônt yn ôl neu gytuno siarad â rhywun arall. |
| • ***Os ydych chi a'r un rydych yn gofalu amdanynt yn cytuno i weithredu, hysbyswch yr unigolyn am yr hyn sy'n digwydd.*** Anogwch wasanaethau i rannu gwybodaeth yn uniongyrchol gyda'r unigolyn. Os nad yw hyn yn bosibl, ceisiwch sicrhau eich bod yn eu hysbysu am unrhyw ddatblygiadau newydd cyn gynted ag y maent yn digwydd. | • ***Peidiwch â diystyru neu anwybyddu arwyddion a symptomau trosedd casineb anabledd oherwydd nad ydych yn deall yr hyn mae'r unigolyn yn ceisio dweud wrthych.*** Efallai y gallwch ddod o hyd i rywun i'ch cynorthwyo i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd? |
| • ***Anogwch yr unigolyn i siarad â ffrind.*** Os nad oes ganddynt gymorth cyfaill, anogwch nhw i gysylltu a ffurfio perthynas gyda grŵp hunan-eiriolaeth neu grŵp cyfeillgarwch. | • ***Peidiwch ag anghofio y dylai'r unigolyn gael eu cynorthwyo cyn belled ag y bo modd i wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd i ymdrin â'u sefyllfa,*** hyd yn oed os ydych yn meddwl nad y penderfyniadau gorau ydynt. |
| • ***Ystyriwch y gall rhai pobl gael eu dychryn gan y troseddwr*** a dim â'r hyder i godi llais yn enwedig os yw'r troseddwyr yn 'ofalwr', yn gymar, neu'n rhywun maent yn dibynnu arnynt yn gorfforol neu'n ariannol. | • ***Peidiwch â gwadu fod problem.*** Deallwch y gall rhai dioddefwyr geisio cuddio eu bod wedi'u cam-drin neu amddiffyn eu hymosodwr o deyrngarwch anaddas, yn enwedig os ydynt yn ystyried eu cam-driniwr yn gyfaill iddynt. |
| • ***Deallwch fod rhai pobl sy'n cael eu cam-drin yn gwybod eu bod mewn perygl ac y byddant â rhyw syniad o'r hyn wnaiff gynyddu'r perygl hwn.*** Cynorthwywch nhw yn y camau maent yn eu cymryd er mwyn cadw'n ddiogel. Anogwch nhw i geisio cymorth gan yr heddlu a gwasanaethau eraill. | • ***Peidiwch â newid y pwnc.*** Gall hyn wneud i bobl deimlo eu bod yn dweud rhywbeth yn anghywir ac y gall eu hatal rhag siarad. Weithiau mae pobl yn aros blynyddoedd cyn dweud wrth unrhyw un ac maent wedi bod yn cadw'r profiad a'r emosiynau am amser hir. |
| • ***Ceisiwch gymorth gan arbenigwr cyfathrebu.*** Eglurwch wrth yr un rydych yn eu cynorthwyo eich bod eisiau deall yr hyn maent yn ceisio ei ddweud wrthych. Cydnabyddwch y gall yr hyn maent yn ceisio ei ddweud wrthych fod yn anodd a phoenus iawn iddynt ac eich bod yn cael cymorth i ddarganfod yr hyn maent eisiau ei ddweud. | |

## Camau tymor hirach

Gall pobl sydd wedi dioddef cam-drin neu ymosodiad corfforol neu rywiol difrifol elwa o therapi. Er enghraifft mae pobl wedi dweud bod ffurfiau mwy traddodiadol o gwnsela, yn ogystal â therapi celf a cherddoriaeth fod o gymorth mawr. Fodd bynnag gall fod yn anodd iawn cael mynediad ato mewn rhai ardaloedd. Dylai meddygon teulu ac awdurdodau lleol allu trefnu atgyfeiriad at wasanaeth priodol.

Mae grwpiau o amgylch y wlad sy'n cynorthwyo pobl i rannu eu hanesion a chael cymorth. Dywedodd pobl fod cymorth cyfeillion yn bwysig iawn. Os nad oes grŵp rheolaidd y gall pobl fynd iddo, efallai eich bod mewn sefyllfa i gynorthwyo i sefydlu un? Gall cael cymorth a chyfeillgarwch rheolaidd gan bobl eraill sy'n wynebu sefyllfaoedd tebyg fod yn fuddiol iawn.

Er enghraifft, os ydych yn gwybod am grŵp cymorth cyfeillion lleol i bobl gydag anableddau dysgu, ystyriwch wahodd arbenigwyr ar drosedd casineb anabledd i ddod â rhoi sgwrs am drosedd casineb anabledd. Gall hyn fod eich gwasanaeth heddlu lleol, neu arbenigwyr eraill.

Mae pobl gydag ystod o namau yn dweud y byddai'n gymorth i gael cyngor 'cadw'n ddiogel' wrth iddynt fynd yma ac acw yn y gymuned eu hunain.

Yn olaf, cydnabyddwch eich anghenion chi am gymorth. Gall achosi straen, gall gymryd amser a gall fod yn ansicr wrth i chi gynorthwyo rhywun drwy'r broses hon.

### Enghraifft o arfer da

Mae Dr Mark Brookes MBE, Arweinydd Eiriolaeth ac arbenigwr trosedd casineb anabledd yn Dimensions yn ymweld â grwpiau'n rheolaidd er mwyn siarad am drosedd casineb anabledd a chlywed hanesion pobl.

Gwefan Dimensions:

https://www.dimensions-uk.org/get-involved/campaigns/say-no-autism-learning-disability-hate-crime-imwithsam/i-parent-carer/



# Beth allaf ei wneud?

Mae pobl anabl a gofalwyr wedi mynegi diddordeb mewn rhannu syniadau a phrofiadau am beth arall y gellir ei wneud mewn sefyllfaoedd penodol y mae pobl anabl yn eu profi'n gyffredinol.

## Aflonyddwch yn y gymuned: beth allaf ei wneud?

Gall aflonyddu ddigwydd ar y stryd, mewn safleoedd bws, ar fysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus arall, mewn siopau a mannau cyhoeddus eraill.

Os ydych gyda'r unigolyn pan mae'n digwydd, efallai na fyddant eisiau i chi weithredu wrth i'r aflonyddu ddigwydd. Er enghraifft, efallai nad ydynt eisiau'r sylw. Efallai fod y ddau ohonoch yn poeni gwnaiff y sefyllfa ddwysau. Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin ar y pryd. Os gallwch, gofynnwch iddynt yr hyn yr hoffent ei wneud.

Ar yr un pryd, mae hefyd yn bwysig nad ydych yn anwybyddu'r hyn sy'n digwydd. Cydnabyddwch yr hyn ddigwyddodd. Rhowch y neges glir nad oedd hi'n iawn ac nad bai yr unigolyn ydoedd. Mae trosedd casineb yn ymwneud a gelyniaeth, rhagfarn a chasineb at anableddau gan y troseddwr. Nid yw ynghylch nam y dioddefwr. Dylai pobl anabl fod yn rhydd i fod eu hunain a byw heb ofn. Trafodwch pa gamau yr hoffent eu cymryd, gan gynnwys hysbysu'r heddlu am y digwyddiad neu gwblhau adroddiad ar True Vision drwy ddilyn y ddolen hon: http://www.report-it.org.uk/disability_hate_crime

Os yw hyn yn rhywbeth sy'n digwydd yn rheolaidd, gall fod o gymorth i siarad amdano pan ydych ar eich pen eich hun, efallai gartref mewn lle diogel. Neilltuwch yr amser hwn i gytuno ar yr hyn i'w wneud ynghylch aflonyddwch stryd pan mae'n/os yw'n digwydd. Er enghraifft, efallai fod yr unigolyn yn penderfynu y gwnânt symud oddi wrth y digwyddiad os gallent. Gall hyn gynnwys symud o'r safle bws, symud i sedd arall neu gael yr opsiwn o gael tacsi. Efallai eu bod yn penderfynu eu bod eisiau herio'r ymddygiad os gallent. Cytunwch ac efallai awgrymwch fod yr unigolyn yn ymarfer yr hyn gallent ei ddweud pe bai'n digwydd a'u bod yn penderfynu codi eu llais amdano ar y pryd.

Yn unol â'r canllaw riportio uchod, nodwch y wybodaeth ganlynol os yn bosibl:

- amser o'r dydd a'r lleoliad,
- disgrifiad o'r bobl sy'n aflonyddu (faint? Oedran a rhywedd yn fras? ysgol?),
- os yw'r digwyddiad ar y bws, rhif y bws ac enw'r gyrrwr,
- am ddigwyddiadau parhaus sy'n cynnwys 'ymddygiad gwrthgymdeithasol mae'n bwysig cadw dyddiadur o ddigwyddiadau gan gynnwys pwy oedd yn gysylltiedig, yr hyn ddigwyddodd, pryd a lle.

Efallai eich bod eisiau cofnodi'r hyn sy'n digwydd ar eich ffôn. Fodd bynnag, gall y cam hwn ddwysau'r sefyllfa, felly defnyddiwch eich synnwyr cyffredin.

Os yw'r digwyddiad yn dwysau a'ch bod yn poeni fod yr unigolyn rydych yn eu cynorthwyo mewn perygl o niwed uniongyrchol, awgrymwch eu bod yn ffonio 999 neu'n cynnig gwneud ar eu rhan. Os nad oes perygl o niwed uniongyrchol a'u bod nhw a/neu eich bod chi'n credu bod trosedd neu ddigwyddiad hysbys wedi digwydd, cysylltwch â'r heddlu ar 101 neu cwblhewch adroddiad ar True Vision drwy ddilyn y ddolen hon: https://www.report-it.org.uk/your_police_force

## Syniadau eraill

Mae yn erbyn y gyfraith i unrhyw wasanaeth trafnidiaeth, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, i wahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Chwiliwch beth yw polisi'r cwmni bws ar aflonyddu a'r hyn gallwch ei ddisgwyl gan y gyrrwr neu weithwyr eraill. Er enghraifft, os oes sefyllfa benodol yn berthnasol i goetshis cadair yn cymryd lle defnyddwyr cadair olwyn, efallai eich bod eisiau

siarad â'r gyrrwr bws ac amlygu bod hyn yn torri cyfraith gwahaniaethu. Gweler isod am gynghorion ar yr hyn i'w wneud os ydych yn meddwl fod gwahaniaethu'n gysylltiedig.

Ystyriwch gofnodi sgyrsiau am unrhyw ddigwyddiad ar lafar neu'n ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Gall hyn gynorthwyo'r un rydych yn eu cynorthwyo i gofio'r digwyddiadau yn eu geiriau eu hunain. Gall fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl gyda heriau cyfathrebu os gofynnir iddynt roi datganiad i'r heddlu neu asiantaethau eraill.

## Cyfeillgarwch ffug

Gall y math hwn o droseddu gael ei alw hefyd yn 'drosedd cyfeillio'. Mae ynghylch ystod o sefyllfaoedd pan mae pobl yn cael eu cyfeillio neu eu rhwydo gan un neu fwy o bobl. Er enghraifft, bydd pobl y gall yr unigolyn rydych yn eu cynorthwyo hysbysu am 'gyfeillion' yn symud i'w tŷ neu'n dwyn oddi arnynt. Gall ymddygiad ddwysau i'w gorfodi i wneud pethau yn erbyn eu hewyllys, eu cam-drin yn seicolegol ac yn ymosod arnynt yn gorfforol neu'n rhywiol, yn aml dros gyfnodau hir o amser, gan alw'r unigolyn yn 'bedoffeil' neu'n 'grass' a dyfeisio 'cosbau' sy'n peri niwed difrifol.

Gall y sefyllfaoedd hyn fod yn anodd iawn i gynorthwyo rhywun. Ar yr un amser, gallent fod yn sefyllfaoedd perygl mawr sy'n arwain at niwed difrifol a marwolaeth. Gallent fod yn debyg i sefyllfaoedd o 'reolaeth gorfodol', sy'n cael ei brofi'n gyffredinol gan ddioddefwyr trais domestig. Gall llawer o wahanol droseddau gael eu cynnwys fel aflonyddu, lladrata ac ymosodiadau corfforol a rhywiol mynych a dwys. Mae dioddefwyr posibl yn fwy tebygol o fyw eu hunain, gydag ychydig o gymorth. Efallai eu bod yn byw yn bell o ffrindiau neu deulu. Efallai ei bod yn anodd dod â phopeth sy'n digwydd at ei gilydd.

Os ydych yn poeni, dilynwch y siart hysbysu a gweithredwch, gan hysbysu'r heddlu pan mae angen.

Os ydych wedi hysbysu am y mathau hyn o ddigwyddiad(au) i'r heddlu neu wasanaeth statudol arall, gwiriwch y canlynol:

- Beth yw statws unrhyw ymchwiliad?
- A oes polisïau diogelu mewn lle gyda rolau a chyfrifoldebau amlwg?
- A oes unrhyw broblemau o ran gallu meddyliol? Er enghraifft, a oes gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniadau am y cysylltiad(au) sydd o bosib yn cynnwys cam-drin y maent yn gysylltiedig â nhw?
- A oes unrhyw arwyddion o reolaeth orfodol?[5]
- Cadwch mewn cysylltiad â'r unigolyn a chadwch y cyfathrebu'n agored. Ceisiwch osgoi barnu a pharchwch eu hawl i breifatrwydd. Cynorthwywch nhw i wneud dewisiadau mwy diogel.
- Nodwch bobl eraill a allai fod yn ffynhonnell cymorth. Er enghraifft, efallai fod sefydliad lleol fel Sefydliad Pobl Anabl (DPO) neu People First Group sydd â phrofiad o gynorthwyo pobl yn y sefyllfaoedd hyn.
- Os yw un o'r troseddwyr yn gymar i'r unigolyn hefyd, ystyriwch gysylltu â gwasanaeth i ddioddefwyr trais domestig.

Cofiwch y gall pobl fychanu risg oherwydd dibyniaeth seicolegol, emosiynol neu gorfforol ar y troseddwr/troseddwyr. Pa gymorth sydd ar gael i gynorthwyo'r unigolyn hwn i wneud penderfyniadau mwy diogel a gwahanu?

## Trais, cam-drin neu esgeulustod yn y cartref

Mae ymosodiadau corfforol a rhywiol, cam-drin seicolegol ac esgeulustod yn droseddau lle bynnag maent yn digwydd. Gall unrhyw un gyflawni trosedd casineb, gan gynnwys gofalwyr, gweithwyr cymorth, aelodau o'r teulu, cyfeillion, gweithwyr proffesiynol neu ffrindiau.

Eto, dilynwch y siart lif hysbysu a chyfeiriwch at y Canllawiau Diogelu ar dudalen 11. Os ydych yn meddwl bod yr un rydych yn eu cynorthwyo mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylech ffonio'r heddlu.

---

[5] Gweler https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/disability-hate-crime-and-other-crimes-against-disabled-people-prosecution-guidance, 'Os yw troseddwyr yn bartneriaid, neu'n byw gyda'r unigolyn anabl ac sydd un ai'n aelodau o'r un teulu neu wedi bod yn gymheiriaid o'r blaen, gall y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodol fod yn berthnasol: gweler canllawiau cyfreithiol ar Reolaeth Gorfodol'

## Casineb ar-lein

Tra gall y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol fod yn ffynonellau cymorth a gwybodaeth mawr i bobl anabl, gallent hefyd fod yn ffynhonnell niwed, casineb a pherygl. Mae rhai cynnwys niweidiol neu, yr hyn a adwaenir fel 'casineb ar-lein' yn anghyfreithlon a dylid hysbysu'r heddlu. Fodd bynnag, nid yw llawer o gynnwys niweidiol fel yr enghraifft yn gynharach yn y canllaw hwn ar tudalen 9.

Mae sawl ffynhonnell cymorth a gwybodaeth defnyddiol ynghylch sut i gymryd camau i ddisodli cynnwys niweidiol a chael cymorth i'r un rydych yn eu cynorthwyo.

**'True Vision'** yw gwefan trosedd casineb yr heddlu. Mae ganddi lawer o wybodaeth am gasineb ar-lein ac mae'n cynnwys opsiwn i ddioddefwyr hysbysu'r heddlu am gynnwys cas ar-lein. Gall adroddiadau hefyd gael eu gwneud yn anhysbys os nad yw'r dioddefwr eisiau rhoi eu manylion.

Mae gan yr heddlu dîm arbenigol o swyddogion er mwyn ymdrin â'r mwyafrif o adroddiadau casineb ar-lein. Os yw'r dioddefwyr yn gadael manylion, fe wnânt eu diweddaru ar ymchwiliadau neu drefnu am gymorth lle bo'n briodol.

https://www.report-it.org.uk/reporting_internet_hate_crime

Mae **Stop Hate UK** yn egluro mwy am yr hyn ydy casineb ar-lein, sut i hysbysu amdano a lle i gael cymorth

https://www.stophateuk.org/onlinehate/

Mae gan **Ganolfan Rhyngrwyd Diogelach y DU** wybodaeth ddefnyddiol hefyd am hysbysu am gynnwys niweidiol

https://www.saferinternet.org.uk/helpline/report-harmful-content

## Triniaeth annheg gan fusnesau

Mae gwadu gwasanaethau neu driniaeth wahaniaethol yn erbyn y gyfraith a gall fod yn niweidiol iawn i hyder pobl a'r ymdeimlad o berthyn. Fel yr eglurwyd yn gynharach yn y canllaw hwn, nid yw ymddygiadau o'r fath yn droseddol a gallent fod yn eithaf cynnil. Gallent gynnwys:

- 'cysgodi' neu ddilyn rhywun o amgylch siop.
- gwrthod rhoi mynediad i bobl at wasanaethau neu godi rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau (gweler yr adran uchod ar ddigwyddiadau casineb),
- gwrthod cyflogi rhywun oherwydd eu bod yn anabl,
- gwrthod talu rhywun am eu bod yn anabl.

Yn debyg i ddigwyddiadau o aflonyddu ar strydoedd uchod, os ydych gyda rhywun pan mae hyn yn digwydd a'ch bod yn gwybod nad ydynt eisiau gweithredu ar y pryd, defnyddiwch eich synnwyr cyffredin. Ceisiwch gytuno ar y camau y buasech yn eu cymryd yn y sefyllfa o flaen llaw mewn lle diogel, fel yn y cartref.

Os ydych yn penderfynu gweithredu, dylai'r un sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwahaniaethol gael gwybod bod eu hymddygiad yn annerbyniol ac yn niweidiol a'u bod mewn perygl o dorri cyfraith gwahaniaethu. Gallwch siarad â rheolwr. Gofynnwch iddynt gywiro'r sefyllfa. Os nad ydych yn fodlon, gallwch ofyn am gopi o'u gweithdrefn cwynion.

# Atodiad Un: Cofnodi cwyn fel trosedd casineb anabledd, templed llythyr

Mae'n bwysig fod yr heddlu'n cofnodi troseddau casineb yn gywir, gan ei fod yn cynorthwyo rheolwyr i ddeall natur y broblem. Mae cofnodi hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod ymholiadau'n drwyadl ac yn effeithiol ac y bodlonir anghenion dioddefwyr. Mae'r isod yn debyg i destun sydd wedi cael ei ddefnyddio gan eiriolwyr. Mae hyn er mwyn ysgrifennu at brif swyddogion, er mwyn sicrhau bod trosedd sydd wedi'i riportio yn cael ei chofnodi'n gywir, ac y gellir ei golygu i'ch cynorthwyo mewn amgylchiadau tebyg.

Annwyl Brif Gwnstabl

Rwyf yn ofalwr i [Joe Smith] wnaeth hysbysu eich cydweithiwr yng [Ngorsaf Heddlu Stanford] am drosedd ar [Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2020]. Mae gan [Joe] anabledd dysgu a gwnaeth riportio [ei fod wedi cael ei fygwth a bod eiddo wedi'i ddifrodi].

Rwyf yn amgyffred fod y drosedd wedi'i chymell yn llawn neu'n rhannol gan gasineb tuag at [Joe] ar sail ei anabledd dysgu gan [y defnyddiodd y troseddwr iaith fychanus tuag ato]

Fel y gwyddoch, mae gan yr heddlu ddiffiniad a rennir o'r hyn yw trosedd casineb anabledd sef;

"Unrhyw drosedd a ganfyddir, gan y dioddefwr neu unrhyw un arall, ei fod wedi'i chymell gan gasineb neu ragfarn ar sail anabledd neu anabledd ymddangosiadol unigolyn."

Gan fy mod yn gofalu am [Joe] rwyf yn cael fy nghynnwys yng nghanllawiau'r Coleg Plismona ynghylch pwy ddylai gael eu hystyried fel 'unrhyw un arall'. Gan fy mod yn dirnad y drosedd hon i fod yn drosedd casineb anabledd buaswn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau i mi fod y mater wedi'i gofnodi fel trosedd casineb. Cadarnhewch hefyd eich bod wedi asesu neu gofnodi ei anghenion yn unol â'ch rhwymedigaethau o dan God Ymarfer Dioddefwyr Trosedd.

Buaswn yn barod i'ch cynorthwyo gyda'ch cymorth parhaus i [Joe] wrth i'ch ymholiadau barhau.

# Mynd ymhellach – Adnoddau

## *Gwasanaethau Cenedlaethol sy'n cynnig cymorth arbenigol*

***Beyond Words***
*Mae Beyond Words yn elusen sy'n darparu llyfrau a hyfforddiant i gynorthwyo pobl sy'n canfod lluniau'n haws i'w deall na geiriau – gan gynnwys 'Mugged' sef llyfr sy'n cynorthwyo trafodaeth ynghylch dioddef trosedd.*
*https://booksbeyondwords.co.uk/*

***Sefydliad Ymddygiad Heriol (CBF)***
*Mae'r CBF yn gweithio i wella dealltwriaeth o ymddygiad heriol, grymuso teuluoedd gyda gwybodaeth a chymorth, a chynorthwyo pobl eraill i roi gwell gwasanaethau a mwy o gyfleoedd. https://www.challengingbehaviour.org.uk/*

***Hawliau Anabledd y DU (DR UK)***
*Mae DR UK yn cynnig cyngor ar ystod o broblemau gan gynnwys gwahaniaethu, byw'n annibynnol a throsedd casineb anabledd.*
*https://www.disabilityrightsuk.org/how-we-can-help*

***Dimensions***
*Er enghraifft, os ydych yn gwybod am grŵp cymorth cyfeillion lleol i bobl gydag anableddau dysgu, ystyriwch wahodd arbenigwyr ar drosedd casineb anabledd i ddod â rhoi sgwrs am drosedd casineb anabledd. Mae'n ymgyrchu ynghylch trosedd casineb anabledd ac mae wedi creu ystod o adnoddau sy'n egluro am yr hyn ydyw a'r hyn y gellir ei wneud.*
*Ymgyrch #ImWithSam Dimensions:*
*https://www.dimensions-uk.org/get-involved/campaigns/say-no-autism-learning-disability-hate-crime-imwithsam/*
*Polisi Diogelu Dimensions, fersiwn 8.1:*
*https://www.dimensions-uk.org/wp-content/uploads/Safeguarding-policy-version-8.1.pdf*

***Gwasanaeth Cymorth Ymgynghorol Cydraddoldeb (EASS)***
*Mae Llinell Gymorth EASS i bobl sy'n teimlo eu bod wedi'u gwahaniaethu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Gall hefyd hysbysu pobl am addasiadau rhesymol.*
*Ffôn: 0808 800 0082*
*Ffôn testun: 0808 800 0084*
*Mae porth gwe gamera i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Gwefan:*

*Website: www.equalityadvisoryservice.com*

***Mencap***
*Mae Mencap yn elusen genedlaethol sy'n cynnal gwasanaethau ac ymgyrchoedd ynghylch problemau sy'n effeithio pobl gydag anableddau dysgu. Mae Mencap yn rhedeg y Llinell Anabledd Dysgu sy'n wasanaeth llinell gymorth am ddim sy'n cynnig cyngor a chymorth i bobl gydag anabledd dysgu, a'u teuluoedd a gofalwyrhttps://www.mencap.org.uk/advice-and-support/our-services/learning-disability-helpline*

***Respond***
*Mae Response yn elusen genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau therapiwtig a chymorth i bobl gydag anableddau dysgu, awtistiaeth neu'r ddau sydd wedi cael eu cam-drin, wedi profi trais neu drawma.*
*https://respond.org.uk/contact-us/*

***Mae Stop Hate UK***

*Mae Stop Hate UK yn un o'r prif sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithio i herio bob math o Drosedd Casineb a gwahaniaethu, ar sail unrhyw agwedd o hunaniaeth unigolyn. Mae Stop Hate UK yn darparu adroddiadau a chymorth annibynnol, cyfrinachol a hygyrch i ddioddefwyr, tystion a thrydydd partïon. Maent yn cynorthwyo dioddefwyr mewn meysydd lle mae awdurdodau yn tanysgrifio i'w gwasanaethau a gallwch ganfod os yw eich ardal yn cael ei chynnwys ar*
*https://www.stophateuk.org/stop-hate-areas/*

***True Vision***

*'True Vision' yw gwefan trosedd casineb yr heddlu. Mae ganddi lawer o wybodaeth am gasineb ac mae'n cynnwys opsiwn i ddioddefwyr hysbysu'r heddlu am gynnwys cas ar-lein. Gall adroddiadau hefyd gael eu gwneud yn anhysbys os nad yw'r dioddefwr eisiau rhoi eu manylion.*

*Mae True Vision hefyd yn cynnwys dolenni a chopïau at holl ganllawiau a gwybodaeth heddlu perthnasol. Mae hefyd yn cyfeirio gwybodaeth ac adnoddau gan asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n berthnasol i drosedd casineb.*

***Canllawiau pellach gan y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus***

***Cod Ymarfer Dioddefwyr Trosedd – amlinellu'r hyn mae gennych hawl iddo os ydych yn dioddef trosedd yng Nghymru a Lloegr.***
*https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476900/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF*

***Dyletswyddau busnesau i roi toiledau hygyrch:***
*https://accessible-toilet-project.blog/2015/11/03/equality-of-toilet-provision-the-equality-act-2010*

***Deddf Gofal 2014:***
*Mae Deddf Gofal 2014 yn amlinellu'r fframwaith gyfreithiol ar sut y dylai awdurdodau lleol a rhannau eraill o'r system warchod oedolion mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod.*
*https://www.scie.org.uk/care-act-2014/safeguarding-adults/*

***Gwasanaeth Erlyn y Goron***
*Ar ben yr adnoddau a gyfeirir atynt yn y canllaw, mae GEG wedi creu'r canllawiau a dogfennau canlynol.*

*Canllaw cymorth i ddioddefwyr anabl a thystion:*
*https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/guide-to-support-for-disabled-victims-and-witnesses-of-crime.pdf*
*Fersiwn darllen hawdd: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses-2016-easy-read.pdf*

*Yr hyn mae GEG wedi ymroi i'w wneud ynghylch casineb ar-lein:*
*https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses.pdf*

*Datganiad cyhoeddus ar drosedd casineb anabledd:*
*https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/disability-hate-crime-public%2520statement-2017.pdf*
*Fersiwn darllen hawdd: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/hate-crime-what-it-is-and-what-to-do-about-it-2016-easy-read.pdf*

*Canllaw cymorth i ddioddefwyr anabl a thystion:*
*https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/guide-to-support-for-disabled-victims-and-witnesses-of-crime.pdf*
*Fersiwn darllen hawdd: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Hate-Crime-what-it-is-and-how-to-support-victims-and-witnesses-2016-easy-read.pdf*

*Rheolaeth orfodol:*
*https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/disability-hate-crime-and-other-crimes-against-disabled-people-prosecution-guidance*

***Adnoddau defnyddiol eraill***

*Mae'r **Sefydliad i Bobl gydag Anableddau Dysgu** wedi creu adnoddau defnyddiol ynghylch trosedd casineb anabledd ar sail eu hymchwil diweddar ar y mathau o ymatebion i drosedd casineb anabledd sy'n gweithio orau i bobl gydag anableddau dysgu.*
*https://www.mentalhealth.org.uk/learning-disabilities/our-work/rights-equality/addressing-disability-hate-crime*

*Mae gan y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol***
*lawer o adnoddau am wahaniaethu ar sail anabledd: www.equalityhumanrights.com*

---

**Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ynghyd â rhai o'n partneriaid allweddol, gan gynnwys Dimensions.**

**Rydym yn gobeithio ei fod wedi bod o gymorth ac yn bwysicaf oll ei fod yn cynorthwyo i warchod pobl rhag trosedd casineb anabledd yn y dyfodol.**

**Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau, neu rydych eisiau copïau o'r adroddiad hwn er mwyn rhannu gyda gofalwyr eraill, yna cysylltwch â ni ar enquiries@report-it.org.uk**

---

NPCC National Police Chiefs' Council

dimensions